Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Ragfyr 2021.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans Prenteg, Richard Parry Edward Evans – Bryncir, John Jones Michael Jones – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams – Golan, Huw Pritchard – Pentrefelin, Dafydd Thomas – Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd.

Croesawyd Michael Jones i'w gyfarfod cyntaf. Trefnodd y Clerc iddo arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Amanda N Owen, Clifford Williams, Iddon Edwards, Manon Jones Evans, Delyth Evans, Gwenno Emlyn Huws.

3 **Ddim yn bresennol** – dim.

4 **Datgan buddiant**

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 4/11/21 Gwilym Evans yn cynnig ei bod yn gywir a John Jones yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Prenteg

Modurdy – Cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd ac mae o am geisio cael gwybodaeth am berchnogaeth yr adeilad.

Modur wedi ei symud o'r Maes Parcio ac wedi ei barcio o flaen y tai cyngor. Swyddog o Gyngor Gwynedd am gysylltu gyda Adre.

Gwter wrth Aberdeunant – Archwiliwr Priffyrdd wedi cyfarfod gyda Gwilym Evans ag am archwilio'r safle.

Materion Priffyrdd

Mis Hydref

Lôn Treflys, Pentrefelin – Mae'r Archwiliwr Priffyrdd am gael golwg ar y safle.

Arosfan Bws, Golan – Mae trefniant mewn lle i docio'r coed yn ôl.

Mis Tachwedd

Pentrefelin – Mae'r Archwiliwr Priffyrdd wedi trefnu i'r gweithlu fynd i lanhau'r cerrig tu allan i Ty'n Llech.

Bryncir

Pont Felin – Mae gosod draen newydd ar y safle wedi ei ychwanegu i raglen waith y gweithlu.

Llifogydd Bwyty Mahida – mae'r mater wedi cael ei anfon ymlaen i'r Asiantaeth Cefnffyrdd.

Llwybrau Cyhoeddus – fel yr adroddwyd mis diwethaf, mae'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy wedi cerdded llwybr Ty'n Ffridd. Mae dŵr yn pyllu yn y pantiau mewn o leiaf dau le. Mae yn bosib gosod ychydig o gerrig draenio yn y pantiau yma. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd osod cerrig draenio ar y safle.

Problemau Parcio Garndolbenmaen - nid yw Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'r e-byst. Clerc i gysylltu gyda Rheolwr Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd.

Pentrefelin- newid cyfyngiad cyflymder Fferm Plymouth at y Ganolfan. Mae'r ymholiad wedi ei anfon at Adran Drafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

Hwb Eifionydd – Derbyniwyd ateb gan Hwb Iechyd Eifionydd i'r llythyr a yrrodd y Cyngor Cymuned atynt ym mis Hydref. Cafwyd amlinelliad o'r rheswm am ymuno Meddygfeydd Criccieth a Phorthmadog. Eglurwyd fod apwyntiadau yn cael eu cyfeirio at y clinigwr gyda'r arbenigedd yn y maes yn ymwneud ag anhwylder y claf. Hefyd, mae staff wedi eu clustnodi i gymryd pob galwad ffôn a rhai eraill yn gofalu am bresgripsiwn.

Yn ystod trafodaeth am gynnwys y llythyr, codwyd rhai pryderon pellach ynglŷn â'r Meddygfeydd. Mae trigolion lleol sydd yn cysylltu ar y ffôn gyda'r Meddygfeydd yn cael eu hunain mewn ciw yn disgwyl am ateb. Mae rhai yn cael trafferth cael apwyntiad gyda Meddyg sy'n angenrheidiol i gael barn feddygol o'u symptomau.

Clerc i lythyru gyda Hwb Eifionydd i dynnu sylw at y pryderon uchod a diweddaru'r Cynghorydd Mike Parry, Cynrychiolydd Unllais ar Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr ar y sefyllfa.

Golan

Mynwent Bethel - derbyniwyd pris gan Idris Jones ar gyfer tacluso'r llwybrau. Penderfynwyd derbyn hwn. Megan Lloyd Williams yn cynnig a Michael Jones yn eilio. Clerc i ofyn iddo wneud y gwaith cyn Nadolig.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Huw Pritchard y cyfarfod.

7 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel

Caead twll archwilio angen sylw. Clerc i gysylltu gydag Eifion Owen.

Carreg fedd gyda thâp o'i amgylch – Clerc i gysylltu gyda'r Brodyr Kerrs i ofyn iddynt wneud y gwaith cyn Nadolig.

Mynwent Prenteg – Dylan Edwards am wneud y gwaith yr wythnos yn cychwyn 5ed o Ragfyr.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Edward Evans y cyfarfod.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr Cefn Meusydd i Hendregadredd, Pentrefelin – llechi heb gael ei ail osod. Clerc i gysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Pentrefelin

Ffordd Tabor – Boncyffion coed wedi syrthio lawr yn ystod y tywydd garw. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Parc Cenedlaethol Eryri Cronfa Prosiectau Cymunedol Bychain – nid yw Pentrefelin o fewn y dalgylch gall wneud cais. Clerc i hysbysu Cynghorwyr Pentrefelin os ddaw grantiau eraill ar gael.

Garndolbenmaen

Cambrian Terrace, Garndolbenmaen – Clerc i wneud cais i Adran Gwasanaethau Stryd yrru llythyr at drigolion y tai i ofyn iddynt gadw eu biniau yn eu gerddi o flaen eu tai.

Grant Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Clerc i edrych ar amodau'r grant i weld a fyddai'n bosib gwneud cais i brynu mainc newydd ar gyfer Y Green.

10 **Cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned – Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd**

Cytunodd Michael Jones i gynrychioli'r Cyngor Cymuned a Megan Lloyd Williams yn ddirprwy gynrychiolydd.

11 **Cyllideb 2022 -23**

Adroddodd y Clerc y bydd yn paratoi'r gyllideb i gyflwyno i'r Is-bwyllgor Cyllid ac yna'r Cyngor Llawn ym mis Ionawr.

Gofynnodd i'r Cynghorwyr gysylltu gyda hi os oedd angen cynnwys cyllid ar gyfer unrhyw waith yn ychwanegol i'r arferol yn un o'r wardiau.

12 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd – Cynhadledd Gwasanaeth Twristiaeth Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri – 30/11/21. Rhannwyd 15/11/21.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Fforwm Newydd Pethau Bychain Rhwydwaith gwyrdd ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

b Unllais Cymru – ymateb Unllais ar ymgynghoriad ar drethi lleol.
c Unllais Cymru – Hyfforddiant Tachwedd/Rhagfyr.
ch Llywodraeth Cymru – diweddariad Rheoliadau Etholiadau Lleol Cymru.
d Cyngor Tref Criccieth – Criccieth Creadigol. Clerc i gysylltu i'w llongyfarch.
dd Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
e Cadwch Gymru'n Daclus - Posteri cadwch olion pawennau yn unig.

13 **Cynllunio**
Rhestrau – 29/10, 5/11, 12/11, 19/11/21.

Ceisiadau Cynllunio

C21/1047/36/DT Dymchwel y porth presennol, creu lolfa wydr yn y cyswllt rhwng y prif dŷ a'r adeilad allanol gyda theras o'i flaen gan greu llofft ychwanegol o fewn yr adeilad allanol, gyda mynediad o'r cyswllt newydd. Tai Newyddion Cennin, Garndolbenmaen. LL51 9EX. Dyddiad cau 22/11/21. Dim gwrthwynebiad.

NP2/16/T413E Amrywio amodau 1 a 6 a dileu amod 3 ynghlwm i ganiatâd Cynllunio NP2/16/T413C dyddiedig 2/03/21. Beudy Mawr, Cwmystradllyn, LL51 9BQ Dyddiad cau 29/11/21. Dim gwrthwynebiad.

14 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: - Dawns i Bawb. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r Gyllideb: dim gorwariant.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.20
Yr Wylan	=	£ 32.00
Llais Ardudwy	=	£ 25.00
Papur Bro Lleu	=	£ 17.00
Ychwanegwyd		
Gardencraft	=	£ 7464.00

Bydd cynnydd ym mhris Cymru1 a Veolia o'r 1af o Ionawr 2022.

Derbyniadau - Pritchard & Griffiths = £ 220.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,845.15 Cyfredol £19,971.55

15 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Cynghorydd newydd Garndolbenmaen.
- Ceisiadau Cynllunio.
- Hwb Eifionydd
- Lôn Tabor

Gwefan: Cofnodion mis Tachwedd.